

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 51/2016

DYDDIAD CYHOEDDI 15/07/2016

Gwerthusiad o'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd Old Bell 3 Cyf, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad terfynol o'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth (HTP).
- 1.2 Amcan y gwerthusiad hwn oedd asesu llwyddiant yr HTP o ran cwrdd â'i dargedau, ei effeithiolrwydd wrth gyflawni, a'r gwahaniaeth a wnaeth y buddsoddiad i sefydliadau ac ymwelwyr.

2. Y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth

- 2.1 Ariannwyd yr HTP gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a'i nod oedd cael y gwerth economaidd gorau o dreftadaeth yng Nghymru trwy gynyddu nifer, hyd a gwerth ymweliadau â Chymru. Ymdrechodd y prosiect hefyd i agor treftadaeth Cymru i gynulleidfa ehangach trwy ei gwneud yn ddifyrach i ymwelwyr ac i bobl sy'n byw yng Nghymru.
- 2.2 Arweiniwyd y prosiect gan Cadw gyda chronfa gyffredinol o £19 miliwn, sef £9 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (trwy Cadw a'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir), £8.5 miliwn o ERDF o dan Blaenoriaeth 4, Thema 3 Amgylchedd ar gyfer Twf (E4G) o Raglen Cydgyfeirio 2007-2013 a gweddill yr arian gan bartneriaid cyflawni eraill. Cychwynnodd y prosiect yn 2009 a'r bwriad ar y dechrau oedd iddo barhau hyd at mis Rhagfyr 2014. Caniatwyd estyniad iddo a daeth y prosiect i ben ar Mehefin 30 2015. Ariannodd yr HTP gyfanswm o 25 o fentrau, 11 ohonynt yn cael eu cyflawni gan Cadw a'r 14 arall gan bartneriaid allanol. Yn ystod cyfnod ei gyflawni buddsoddodd yr HTP £18.132 miliwn o'r gyllideb a neilltuwyd iddo.

3. Methodoleg

- 3.1 Mae'r adroddiad gwerthuso yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Medi 2015 a oedd yn cynnwys:
 - mynychu cyfarfod cynllunio gyda'r Grŵp Llywio Gwerthuso i gytuno ar y fethodoleg ymchwil ar gyfer y gwerthusiad

- adolygu dogfennau perthnasol i gynllunio a chyflawni'r HTP, gan gynnwys cynllun busnes y prosiect, adroddiadau cynnydd a monitro'r prosiect a data allbwn, gyda'r bwriad o asesu i ba raddau y cyrhaeddwyd targedau'r prosiect
- cynnal arolwg desg o lenyddiaeth polisi ehangach yn ymwneud â thwristiaeth treftadaeth yng Nghymru
- paratoi canllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gyda staff Cadw, rhanddeiliaid allanol a mentrau oedd yn cael eu hariannu gan HTP
- cyfweld â chynrychiolwyr oedd yn ymwneud â 14 o fentrau y cafodd eu hariannu gan HTP a'u harwain gan sefydliadau allanol, gan gynnwys staff o chwe awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru
- cyfweld â deg o staff Cadw yn ogystal â chwech o warcheidwaid Cadw oedd wedi eu lleoli ar safleoedd a ariannwyd gan HTP
- cyfweld swyddogion Croeso Cymru a WEFO
- dadansoddi cynnyrch a chyflawniadau'r prosiect er mwyn cynnal asesiad terfynol o effaith economaidd yr HTP.

4. Canfyddiadau Allweddol

- 4.1 Cafodd yr HTP ei greu a'i ddatblygu mewn cyd-destun Cymreig cefnogol â'i wreiddiau'n ddwfn ym mholisiau allweddol Llywodraeth Cymru ar y pryd. Tra'r oedd y prosiect yn cael ei weithredu parhaodd polisi'r Llywodraeth yn gefnogol i amcanion sylfaenol y prosiect. Darparodd dogfennau strategol a gyhoeddwyd yn ystod oes y prosiect lefel ychwanegol o fanylion a helpodd i lunio cyflawni'r prosiect, yn unol â'i amcanion gwreiddiol.
- 4.2 Gwnaeth yr HTP gynnydd da iawn yn erbyn targedau a osodwyd gan WEFO ar ôl cyflawni dau o'u tri dangosydd perfformiad allweddol. Datblygodd yr amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol mewn 25 safle, cynhyrchodd 809,262 o ymweliadau ymwelwyr a chreodd 5.4 o swyddi amser llawn newydd (yn erbyn targed o 8.8). Darganfu'n gwaith maes fod y prosiect wedi tan-adrodd ei gyraeddiadau yn erbyn dau o'i dargedau a ariannwyd, gan mai dim ond am 13 o'r 25 o fentrau a ariannwyd yr adroddwyd data ymwelwyr ac mai dim ond am un fenter a ariannwyd yr ystyriwyd y swyddi a grëwyd (yn ychwanegol at y tîm rheoli prosiect creiddiol a gyflogwyd gan Cadw). Yn wir fe ddangosodd ein hymchwil fod yr HTP wedi helpu i greu swyddi newydd ar draws o leiaf bump o'r mentrau a ariannwyd ac nid oedd y swyddi hyn wedi cael eu hadrodd i WEFO fel allbynnau'r prosiect.
- 4.3 Oherwydd y diffyg data monitro cadarn ar gyfer mentrau a ariannwyd yn allanol, ynghyd â'r diffyg targedau gwreiddiol a roddwyd i'r tîm gwerthuso ar gyfer mentrau dan arweiniad Cadw, roedd yn anodd iawn dod i gasgliad ynglŷn â llwyddiant neu fethiant mentrau unigol. Pan oedd y fath ddata ar gael, darganfu'r arolwg nad oedd yr un o'r mentrau unigol wedi cyflawni eu targedau ymwelwyr erbyn Rhagfyr 2014.
- 4.4 Y prif ffactorau a gyfrannodd tuag at danberfformiad y mentrau unigol oedd oedi yn ystod y cyfnod cychwynol (oedd yn effeithio ar allu'r mentrau i gwrdd â'r amserlenni gwreiddiol a osodwyd) a'r diffyg ffigurau ymwelwyr oedd ar gael ar gyfer y cyfnod wedi'r buddsoddiad, o gofio mai dim ond yn ystod 2015 y gwnaeth llawer o fentrau gwblhau eu gwaith.
- 4.5 Daethom i'r casgliad fod yr HTP wedi:
 - llwyddo i gyrraedd ei ddau amcan o wella cyrchfannau treftadaeth Cymru a chynhyrchu dehongliadau treftadaeth oedd yn ffocysu ar ymwelwyr yn y safleoedd hyn

- mabwysiadu dull cynhwysol o ariannu ystod eang o fentrau oedd yn gydnaws ag amcanion a nodau cyffredinol y prosiect
- trawsnewid ansawdd ac apêl rhai safleoedd treftadaeth allweddol
- hyrwyddo datblygu partneriaethau llwyddiannus ar gyfer cyflawni mentrau unigol yn effeithiol
- perfformio'n dda iawn yn erbyn ei themâu, nodau ac amcanion trawsbynciol a daethom ar draws enghreifftiau rhagorol o sut yr oedd mentrau wedi llwyr fabwysiadu amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfleoedd cyfartal
- achosi gwahaniaeth amlwg ym mhrofiadau ymwelwyr yn y safleoedd a gefnogwyd yn ogystal â gwahaniaeth cymedrol yn y niferoedd ymwelwyr yn 11 o leiaf o'r safleoedd a gefnogwyd.

4.6 O ran effaith, adroddodd y gwerthusiad y gellid cysylltu'r buddsoddiad HTP gydag effeithiau gwerth tua £19 miliwn o GVA y flwyddyn a bod hyn yn cefnogi cyflogaeth tua 1,000 o weithwyr amser llawn. Gellid disgwyl i'r ymweliadau ychwanegol gan dwristiaid yn sgil y mentrau a ariannwyd yn allanol arwain at gynnydd yn GVA Cymru o £0.5 miliwn gan arwain at gyfleoedd gwaith yn cyfateb i 27.5 o swyddi amser llawn (a chymryd fod 25% o ymweliadau yn rhai dilys ychwanegol) neu gynnydd yn GVA Cymru o £1.01 miliwn gan arwain at gyfleoedd gwaith yn cyfateb i 55 o swyddi amser llawn (a chymryd fod 50% o ymweliadau yn rhai ychwanegol).

4.7 O ran gwersi allweddol, deawn i'r casgliad ymhellach fod yr HTP:

- wedi bod yn rhy uchelgeisiol o ran niferoedd y mentrau a ariannwyd o ystyried yr adnoddau staffio oedd ar gael ar lefel prosiect
- ar lefel unigol, bod mentrau wedi gwneud amcangyfrifon rhy isel o'r adnoddau oedd eu hangen i reoli eu datblygiadau eu hunain, yn enwedig o ran cwrdd â'r gofynion a osodwyd arnynt i gydymffurfio â gofynion ariannol a gofynion adrodd yr Undeb Ewropeaidd
- wedi colli cyfleoedd i gryfhau'r cysylltiadau ar draws y 25 o fentrau a ariannwyd ar draws y prosiect ac y gallai mwy o gefnogaeth fod wedi ei roi i fentrau oedd yn cael eu harwain yn allanol.

4.8 Gwnawn naw o argymhellion ar gyfer cyflawni unrhyw brosiect cyffelyb yn y dyfodol, sef:

- cyflwyno mecanweithiau addas i'w rhoi yn eu lle i gasglu ac adrodd ar yr holl allbynnau a gyflawnir gan unrhyw fentrau caiff eu hariannu, er mwyn sicrhau na fydd prosiectau cyffelyb yn y dyfodol yn tan-adrodd yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad i WEFO
- roi ystyriaeth bellach i ddull mwy cyson o ddiffinio, monitro ac adrodd ar allbynnau prosiectau o'r dechrau un. Byddai hyn yn cynnwys neilltuo cyllideb addas ar gyfer cynnal adolygiadau gwaelodlin, canol tymor a therfynol
- sicrhau bod unrhyw brosiect yn y dyfodol yn buddsoddi mewn datblygiadau sy'n barotach i gychwyn nag a ddigwyddodd yn achos HTP, i sicrhau fod cyn lleied â phosibl o oedi
- bod noddwr y prosiect yn annog mwy o gyswllt a chydweithredu rhwng y mentrau sy'n cael eu hariannu er mwyn sicrhau mwy o gysylltiadau gofodol, thematig a chronolegol
- hyrwyddo unrhyw gyfleoedd ariannu'n ddigonol (gan adeiladu ar yr arfer da a ddangoswyd o fewn yr HTP) ac os yn bosib, fod sylw'n cael ei roi i'r materion a godwyd ynglŷn â sicrhau arian cyfatebol

- bod llai o fentrau mwy strategol yn cael eu hariannu a'u bod yn cael eu dewis drwy ystyried y manteision sy'n debyg o gael eu cyflawni yn erbyn nifer fach o feini prawf effaith economaidd
- sicrhau bod y partner arweiniol sy'n gyfrifol am unrhyw brosiect cyffelyb yn y dyfodol yn cynnull tîm craidd digonol i reoli'r prosiect
- datblygu canllaw caffael ffurfiol gan gytuno arno o'r dechrau rhwng WEFO, y noddwr arweiniol ac unrhyw sefydliadau partner eraill sy'n ymwneud â chyflawni prosiect tebyg yn y dyfodol
- sicrhau fod prosiectau cyffelyb yn y dyfodol yn datblygu a mabwysiadu strategaeth gyfathrebu a hyrwyddo clir sy'n dynodi disgwyliaid i'r corff arweiniol yn ogystal â phob menter unigol, a bod y gofynion hyn yn cael eu hamlinellu yn unrhyw gytundeb darparu cyllid.

Awduron yr Adroddiad: Bryer, N, Old Bell 3 Ltd.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Adroddiad ymchwil llawn - Bryer, N; Old Bell 3 Ltd. (2016). *End of Programme Evaluation for the Heritage Tourism Programme*. Cardiff: Welsh Government, , GSR report number 51/2016.>

Ar gael yn: < <http://gov.wales/statistics-and-research/> ... >

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: heledd.jenkins2@cymru.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016

ISBN digidol 978-1-4734-6722-4